SKSL6

Gosod cyfarpar goleuo gan ddefnyddio ategolion a chyfarpar gosod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod gosodion goleuo a'r isadeiledd yn y safle gofynnol yn dilyn cyfarwyddiadau ar lafar gan y person perthnasol fel y Giaffar neu Giaffar Rigio neu gan ddefnyddio cynllun rigio goleuo.

Mae'r safon hefyd yn ymdrin â gosod strwythurau i adeiladau ac ychwanegu ategolion a gorffeniadau mewn dull diogel.

Yn ogystal, mae'r safon hon yn ymwneud â sut i dderbyn caniatâd i osod ategolion ar adeiladau, a gofalu bod eraill yn ymwybodol o'r gweithrediadau gofalus wrth weithio yn yr ardal rigio.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio fel Technegwyr Goleuo, 'Best Boys' a Giaffars.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfrifo pwysau a llwyth uchaf yr holl gyfarpar penodedig yn gywir
2. dewis a defnyddio nwyddau gafael ar gyfer gosod systemau goleuo'n eu hunion safle gofynnol
3. gofalu fod y cyfarpar diogelu personol sydd wedi'i ddewis ar gyfer defnydd yn bodloni'r gofynion diogelwch ar gyfer gweithio ar uchder
4. gofalu bod y pyst neu'r cyfarpar goleuadau wedi'u gosod yn unol â'r cynllun rigio goleuo
5. diogelu a chlymu lampau gan ddefnyddio'r clymau cywir
6. gofyn am ganiatâd gan y personol penodol a / neu fudiad i osod ategolion a gorffeniadau ar adeiladau
7. marcio mannau gwaith i'r adeilad ac er mwyn aelodau eraill eich tîm
8. hysbysu'r tîm cynhyrchu a'r holl bobl berthnasol am y gweithrediadau gofynnol pan fydd angen cymryd gofal arbennig yn yr ardal rigio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. manylion canfyddiadau'r asesiad risg er mwyn gofalu eich bod yn gosod y cyfarpar goleuo'n ddiogel
2. sut i osod llwythi cyfarpar goleuo'n ddiogel gan ddefnyddio cyfarpar gosod neu gyfarpar crogi
3. llwyth uchaf y nwyddau gafael goleuo a'r pyst goleuadau
4. sut mae llwyth uchaf cyfarpar gafael goleuo yn newid wrth ei symud
5. sut i withredu a symud pyst neu gyfarpar goleuo ar bob math o dir
6. sut i ofalu bod unrhyw system cefnogi wedi'i osod yn gwbl ganolog er mwyn atal damweiniau
7. sut i weithredu gan gydymffurfio gyda chynllun rigio goleuo neu drwy wrando ar gyfarwyddiadau gan y person sy'n gyfrifol am y goleuo
8. y rhesymau dros a goblygiadau rheoliadau yn ymwneud â defnyddio cyfarpar goleuo a gosod
9.

y rhesymau dros oblygiadau rheoliadau yn ymwneud â gweithrediadau codi a chyfarpar codi

1. pwysigrwydd gwirio cyfarpar diogelu personol cyn ei ddefnyddio pan fyddwch yn gweithio ar uchder
2. rheoliadau iechyd a diogelwch yn ymwneud ag ymarferion gweithio'n ddiogel ar uchder
3.
yr ystod o wahanol glymau sy'n bodloni safon y diwydiant a sut i'w defnyddio
4.
pwysigrwydd hysbysu'r tîm cynhyrchu a phobl berthnasol o'r rhagofalon hanfodol wrth rigio mannau

SKSL6

Gosod cyfarpar goleuo gan ddefnyddio ategolion a chyfarpar gosod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSL8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Crefftau Medrus Heb eu Dosbarthu mewn Man Arall, Galwedigaethau â Chrefftau Medrus |
| **Cyfres/Set** | Goleuo ar gyfer Ffilm a Theledu |
| **Geiriau Allweddol** | cynllun rigio; llwyth uchaf, ategolion; cyfarpar goleuo; cyfarpar gosod; asesiad risg; cyfarpar diogelu personol; rigio |